Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Llanybydder
Ysgol Gynradd Llanybydder
Llanybydder
Sir Gaerfyrddin
SA40 9RN

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015**

**gan**

**Dorothy Morris**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 21/04/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Llanybydder yn cyfarfod yn ystafell y gymuned yn Ysgol Gynradd Llanybydder sydd tua saith milltir i'r de orllewin o dref Llanbedr Pont Steffan. Mae'r lleoliad ar agor am bum bore'r wythnos yn ystod tymor yr ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 20 o blant fesul sesiwn. Ar hyn o bryd, mae 19 o blant dwy a hanner a thair oed ar y gofrestr, gydag wyth ohonynt yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu. Daw ychydig dros hanner y plant o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith. Nid oes plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ychydig o blant o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae tri aelod o staff. Penodwyd yr arweinydd i'w swydd bresennol yn 2013 a'r gynorthwywraig yn Nhachwedd 2014. Maent yn meddu ar gymwysterau addas ym maes addysg a gofal plant bach. Mae'r aelod arall o staff yn fyfyrwraig o dan hyfforddiant.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym Medi 2014 a chan Estyn ym Mehefin 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn ddigonol oherwydd:

- Mae'r mwyafrif o'r plant yn gwneud cynnydd priodol o'u man cychwyn
- Mae datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn dda
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau creadigol a chorfforol mewn gweithgareddau megis canu, symud a chelf
- Mae gan y rhan fwyaf o blant agweddau da tuag at ddysgu ac maent yn ymddwyn yn dda
- Mae'r ethos cynhwysol yn creu awyrgylch gynnes a chynhaliol i'r plant
- Mae gweithgareddau diddorol yn sicrhau ymglymiad a mwynhad y plant yn eu dysgu
- Mae'r amgylchedd dysgu yn lliwgar a deniadol
- Mae'r ardal allanol yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau'r plant

Er hyn:

- Nid yw ym medrau llafar Cymraeg, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mwyafrif y plant wedi datblygu'n ddigonol
- Nid yw gweithdrefnau cynllunio'r cwricwlwm wedi'u gwreiddio'n llwyr i sicrhau datblygiad cyson ym medrau dysgu'r plant
- Nid oes digon o ddefnydd o ganlyniadau asesu wrth gynllunio'r dysgu

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn ddigonol oherwydd:

- Mae'r ymarferwyr yn ymrwymedig i ddatblygiad addysgol a phersonol y plant ac yn cydweithio'n effeithiol fel tîm
- Mae'r ymarferwyr yn ymateb yn gadarnhaol i gyngor sy'n sicrhau gwelliannau mewn agweddau ar y ddarpariaeth
- Mae cynllun gwella cynhwysfawr yn hyrwyddo datblygiadau buddiol
- Mae partneriaethau yn cyfrannu'n adeiladol at waith y lleoliad

Er hyn:

- Nid yw'r datblygiadau diweddar wedi'u sefydlu'n ddigon cadarn i gael effaith lawn ar y ddarpariaeth i wella safonau cyflawniad
- Mae gweithdrefnau arwain a rheoli'r lleoliad yn parhau i ddatblygu
- Nid  oes digon o ddefnydd o weithdrefnau arfarnu i adnabod a mynd i'r afael â'r meysydd sydd angen sylw
- Mae gweithredu'r cynllun gwella yn ei gyfnod cynnar

## Argymhellion

A1 Datblygu medrau llafar Cymraeg, rhif a TGCh y plant

A2 Cryfhau'r cynllunio i sicrhau bod medrau'r plant yn cael eu datblygu'n systematig

A3 Sicrhau bod gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan yr ymarferwyr yn cynnig her briodol i'r plant yn gyson

A4 Sefydlu'r gweithdrefnau asesu a gwneud mwy o ddefnydd o'r wybodaeth a geir i gynorthwyo'r cynllunio

A5 Datblygu gweithdrefnau arfarnu i adnabod a mynd i'r afael â'r meysydd sydd angen sylw i wella cynnydd a chyflawniad y plant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n dda ac yn ymateb yn gywir i gyfarwyddiadau a chyfarchion. Mae ychydig o blant yn sgwrsio'n syml yn Gymraeg gan ddefnyddio ystod briodol o eirfa. Mae'r mwyafrif o'r dysgwyr ifanc yn dangos dealltwriaeth gynyddol o eiriau cyfarwydd Cymraeg ond ymatebion byr iawn a geir ar lafar. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwybod ystod briodol o ganeuon a rhigymau Cymraeg ac yn eu canu'n frwdfrydig. Nid yw'r plant yn gyffredinol yn defnyddio'r eirfa y maent yn eu dysgu drwy hyn yn annibynnol yn eu gweithgareddau. Mae'r mwyafrif o'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn eu trin yn gywir. Maent yn defnyddio offer marcio yn briodol mewn cyfryngau gwahanol gydag ychydig o blant yn dechrau ysgrifennu prif lythrennau eu henwau yn annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn medru adrodd rhifau i ddeg gyda'i gilydd ac mae'r mwyafrif yn medru cyfrif gwrthrychau i dri yn gywir ar y cyfan. Mae'r mwyafrif yn medru creu patrymau gwahanol gydag ychydig o blant yn defnyddio termau priodol, megis streipiau a smotiau, i'w disgrifio. Maent yn adnabod siapiau dau ddimensiwn sylfaenol, ond prin yw eu gwybodaeth o ddefnydd arian. Maent yn deall rhai termau mathemategol, megis mawr a bach, mewn gweithgareddau ymarferol. Ychydig o blant sy'n dangos dealltwriaeth sicr o rif wrth drafod eu gwaith. Gyda chymorth, mae'r plant yn defnyddio eu medrau TGCh yn briodol i roi cyfarwyddiadau i deganau rhaglenadwy, er enghraifft, a thynnu lluniau o'u darganfyddiadau yn yr ardal ddysgu allanol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau corfforol a chreadigol mewn amrywiaeth o weithgareddau celf yn cynnwys printio, arlunio a pheintio. Mae'r mwyafrif yn gwneud defnydd addas o'u medrau meddwl a datrys problemau mewn gweithgareddau megis darganfod gwrthrychau wedi'u cuddio yn yr ardal allanol ac ymchwilio i ffynonellau dwr gwahanol.

**Lles: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o blant ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd ymarfer y corff a bwyta'n iach. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, gan gynnwys gweithgareddau symud a dawns yn y neuadd. Maent yn deall pwysigrwydd golchi eu dwylo'n rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf yn gallu gwisgo eu cotiau yn annibynnol ar gyfer gweithgareddau yn yr ardal allanol.

Mae plant yn ymgartrefu'n dda yn y lleoliad. Maent yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yng nghwmni'r oedolion ac yn barod i ofyn am gymorth a chefnogaeth. Maent yn cyd-chwarae gyda'i gilydd yn hwylus ac yn ymddwyn yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos agweddau da at ddysgu ac yn awyddus i ymgymryd â phrofiadau newydd. Mae'r mwyafrif yn dyfalbarhau gyda'u tasgau am

gyfnodau addas o amser ac yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i weithio'n annibynnol.

Mae medrau personol a chymdeithasol y plant yn datblygu'n dda.  Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgymryd â chyfrifoldebau, megis 'helpwr y dydd', cynorthwyo gyda pharatoi byrbrydau, a thacluso ar ôl gweithgareddau, yn hyderus.  Mae eu medrau ac ymwybyddiaeth gymdeithasol yn datblygu'n effeithiol drwy'r gweithgareddau dyddiol, y cyfleoedd i fynychu cyngherddau a gwasanaethau a drefnwyd gan yr ysgol, a thrwy gyfrannu at ddigwyddiadau yn y gymuned megis y carnifal.  Mae lefelau presenoldeb yn gyffredinol dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Digonol**

Mae'r gwelliannau yn y dulliau cynllunio yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar yr ystod o brofiadau diddorol a ddarperir ar draws y meysydd dysgu.  Mae'r gweithgareddau'n seiliedig ar gyfres o themâu sy'n gweddu i ystod oed a lefel datblygiad y plant.  Mae ychydig o gyfleoedd i'r plant gynnig eu syniadau ar gyfer gweithgareddau.

Mae defnydd priodol o fframwaith gynllunio i adnabod medrau a nodi'r prif weithgareddau ar gyfer y sesiynau.  Er hyn, fodd bynnag, nid yw'r cynllunio bob amser yn rhoi digon o sylw i ddatblygu medrau llythrennedd, rhif a TGCh y plant yn systematig.

Mae gweithgareddau dyddiol yn darparu cyfleoedd addas i'r plant ddefnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd.  Maent yn cynnwys cyfleoedd i wrando ar storïau, canu caneuon a rhigymau, trafod pynciau megis y tywydd a defnyddio eu medrau marcio.  Er hyn, ychydig iawn o blant sydd yn ateb cwestiynau syml yn Gymraeg yn ddigymell.  Mae profiadau effeithiol yn datblygu dealltwriaeth y plant o agweddau mathemategol megis patrwm a siâp.  Er bod rhai cyfleoedd i'r plant gyfrif a thrafod rhifau, nid oes digon o drefn i'r ddarpariaeth i sicrhau bod plant yn datblygu dealltwriaeth sicr o rif.  Mae rhai cyfleoedd pwrpasol i'r plant ddefnyddio medrau TGCh penodol ond nid oes digon o sylw i ddatblygu'r medrau'n gyson.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn effeithiol drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Ddewi a Dydd Santes Dwynwen.  Mae ymweliadau â'r siop a'r capel er enghraifft, a chyfraniad ymwelwyr, megis y nyrs a garddwyr lleol, yn cyfrannu at brofiadau dysgu'r plant yn briodol.

**Addysgu:  Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth sicr o'r Cyfnod Sylfaen.   Gwnânt ddefnydd addas o ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau priodol i arwain a chefnogi'r dysgu.  Mae cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plant a'r rhai sy'n cael eu harwain gan yr ymarferwyr.

Mae’r ymarferwyr yn llwyddo i greu amgylchedd dysgu hapus a chadarnhaol. Maent yn ymuno’n frwdfrydig yn y gweithgareddau ac yn defnyddio clod ac anogaeth yn effeithiol i gefnogi ymdrechion y plant. Mae gweithgareddau yn cael eu cynllunio’n ofalus ac yn sicrhau ymrwymiad gweithredol y plant yn eu dysgu. Mae’r helfa drysor a drefnwyd yn yr ardal allanol gyda chyfleoedd pwrpasol i’r plant ddefnyddio eu medrau meddwl a TGCh yn enghraifft o hyn. Weithiau, fodd bynnag, mae amcanion a chynnwys y gweithgareddau sy’n cael eu harwain gan yr ymarferwyr yn rhy eang i ymateb yn llawn i anghenion dysgu’r plant.

Mae’r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac maent yn defnyddio gweithdrefnau addas i asesu ac olrhain eu cynnydd. Maent yn arsylwi ar ymateb y plant yn gyson ac yn cofnodi unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol. Yn ddiweddar, mae’r ymarferwyr wedi cychwyn ar broses o ddatblygu eu gweithdrefnau yn cynnwys gosod targedau unigol i blant. At ei gilydd, mae’r gweithdrefnau newydd a’r defnydd o’r wybodaeth a gesglir i gynllunio’r camau nesaf yn y dysgu yn eu cyfnod cynnar.

Mae’r ymarferwyr yn rhoi adborth priodol i’r rhieni am ddatblygiad eu plant trwy drafodaethau anffurfiol, adroddiadau ysgrifenedig llawn gwybodaeth, a nosweithiau rhieni sy’n derbyn cefnogaeth dda.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae’r lleoliad yn gymuned ofalgar ac mae perthynas waith agos rhwng yr oedolion a’r plant. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol i gynnal a chefnogi iechyd a lles y plant. Mae plant yn cael eu hannog yn llwyddiannus i fwyta'n iach ac i ofalu am eu hylendid personol. Mae’r trefniadau cynefino, ynghyd â’r cysylltiad rheolaidd gyda rhieni, yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu’n dda yn y lleoliad.

Mae trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, pan mae angen. Maent yn cynnwys llinellau cyfathrebu priodol gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol, megis gwasanaethau cefnogi plant a therapyddion lleferydd.

Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae asesiadau risg yn cael eu gweithredu’n briodol.

Mae profiadau dysgu yn meithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn effeithiol. Mae gwerthoedd fel pwysigrwydd gofalu am eraill a bod yn garedig yn cael eu meithrin yn adeiladol trwy’r ddarpariaeth ddyddiol. Mae profiadau, megis cynnig gweddi cyn byrbryd a dathliadau diolchgarwch a Nadolig yn cefnogi datblygiad ysbrydol y plant. Mae ymwybyddiaeth y plant o’r byd ehangach yn cael ei ddatblygu’n briodol drwy brofiadau megis dathlu’r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae’r lleoliad yn darparu cyfleoedd priodol i blant ddysgu am gynaliadwyedd a phwysigrwydd gofalu am bopeth byw. Maent yn cynnwys tyfu planhigion a gofalu amdanynt, bwydo’r adar yn yr ardal allanol, a chymryd rhan mewn gweithgareddau ailgylchu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol sy'n rhoi mynediad cyfartal i bob plentyn i'r ddarpariaeth. Mae'r ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth a gwerth i gefndiroedd amrywiol y plant ac yn ymateb yn briodol. Maent yn creu amgylchedd cynnes a chyfeillgar i bob plentyn.

Mae gan y lleoliad nifer priodol o ymarferwyr gyda chymwysterau addas i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Mae digon o adnoddau ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu. Mae'r adnoddau i hyrwyddo medrau rhif y plant yn fwy cyfyngedig.

Mae'r adeilad a'r safle yn cynnig cyfleusterau addas. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd llawn o'r lle dysgu sydd ar gael drwy drefnu ardaloedd o weithgareddau amrywiol o amgylch yr ystafell. Mae samplau o baentiadau a gwaith celf plant yn cyfrannu at greu amgylchedd lliwgar a deniadol sy'n cefnogi'r dysgu ymhellach. Mae defnydd cynhyrchiol o neuadd yr ysgol ar gyfer ystod o weithgareddau yn hybu medrau creadigol a chorfforol y plant yn effeithiol. Mae'r ardal ddysgu awyr agored yn adnodd gwerthfawr ar gyfer ystod o weithgareddau yn cynnwys gweithgareddau ymchwilio. Mae'r adeilad yn lan a diogel.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r arweinydd yn dangos ymrwymiad cadarn i'w rôl. Mae'r holl ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd cytûn sydd wedi eu seilio'n gryf ar ddatblygiad a lles plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac maent yn gweithio'n gynhyrchiol fel tîm. Mae polisïau addas yn cael eu gweithredu'n briodol.

Mae'r arweinydd yn datblygu arferion dyddiol priodol. Ar y cyfan, mae trefn glir a rhediad esmwyth i'r sesiynau. Mae'r defnydd o brosesau cynllunio a rheoli'r lleoliad yn datblygu. Er enghraifft, mae defnydd addas o gyfarfodydd staff i drafod agweddau ar y ddarpariaeth a materion cyffredinol. Er hyn, nid oes digon o ystyriaeth bob amser i gynnydd a safonau cyflawniad y plant. Mae'r ymarferwyr yn cyflwyno gweithdrefnau newydd priodol, megis dulliau asesu, ond nid ydynt wedi'u gwreiddio'n llawn i ddylanwadu ar y dysgu.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol ac wedi sefydlu perthynas dda gyda'r ymarferwyr. Mae'r swyddogion yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn gydwybodol. Mae'r trysorydd, er enghraifft, wedi dilyn hyfforddiant pellach i ddatblygu ei gwybodaeth o'i rôl. Mae gweithdrefnau priodol mewn lle i werthuso gwaith yr ymarferwyr a hybu eu dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, datblygu medrau Cymraeg y plant a hyrwyddo bwyta'n iach.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ymarferwyr ymwybyddiaeth briodol o brif gryfderau'r lleoliad. Mae defnydd addas o'r fframwaith gynllunio i adnabod rhai medrau dysgu sydd angen eu datblygu ac o restr wirio i gael trosolwg o'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau TGCh y plant. Er hyn, nid oes trefn glir i adnabod a mynd i'r afael â'r meysydd sydd angen sylw i sicrhau gwelliannau yn safonau cyflawniad plant.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn cynnig darlun priodol o'r ddarpariaeth. Mae'r cynllun gwella cynhwysfawr a gynhyrchwyd yn sgil hyn yn nodi rhai meysydd addas ar gyfer gwelliant. Mae gweithredu'r cynllun yn ei ddyddiau cynnar.

Fel rhan o'r swydd, mae cadeirydd y pwyllgor rheoli yn monitro'r ddarpariaeth yn flynyddol. Mae canlyniadau'r ymweliad yn cael eu trafod gyda'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli llawn ac yn sail i gynllunio pellach.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth briodol i farn rhieni drwy drafodaethau dyddiol a thrwy ddadansoddi holiaduron blynyddol, sy'n gefnogol. Maent yn manteisio'n adeiladol ar gyngor proffesiynol athrawes gyswllt yr awdurdod lleol a swyddog datblygu Mudiad Meithrin. Mae strategaethau addas yn cael eu rhoi ar waith sydd yn gwella'r ddarpariaeth.

Mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad yr arolygiad diwethaf wedi cael sylw addas ond mae rhai agweddau ar weithdrefnau cynllunio ac asesu yn parhau yn feysydd i dderbyn sylw pellach.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae perthynas gadarn wedi'i sefydlu gyda'r rhieni a chadarnhawyd hyn yn ystod yr arolygiad. Caiff rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am waith y lleoliad drwy sgyrsiau dyddiol, yr hysbysfwrdd, posteri a chylchlythyron.

Mae partneriaeth gadarnhaol iawn gyda'r ysgol gynradd. Mae'r ymarferwyr yn elwa o'u hymweliadau â'r ysgol a'r cyswllt agos gyda'r pennaeth a'r athrawon. Mae gweithdrefnau effeithiol mewn lle i hyrwyddo trosglwyddiad esmwyth i'r plant i gyfnod nesaf eu haddysg.

Mae perthynas waith adeiladol gydag athrawes gyswllt yr awdurdod addysg a swyddog datblygu Mudiad Meithrin yn cyfrannu'n gynhyrchiol at waith y lleoliad. Mae gan y lleoliad gysylltiadau priodol gyda'r gymuned drwy ymweliadau a chyfraniad ymwelwyr o'r gymuned at brofiadau'r plant. Mae cefnogaeth dda o'r gymuned ar gyfer gweithgareddau codi arian.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n addas ac mae defnydd adeiladol o fedrau'r ymarferwyr wrth drefnu ac arwain gweithgareddau. Mae defnydd cynhyrchiol o adnoddau i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd priodol o'r cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach. Mae datblygiad yr ardal allanol yn enghraifft o

hyn.  Mae defnydd buddiol o’r ymweliadau â lleoliadau eraill i arsylwi arfer dda mewn agweddau megis asesu.

Mae gan y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o’r gyllideb a chaiff penderfyniadau gwariant eu blaenoriaethu yn ôl anghenion y lleoliad.  Mae defnydd pwrpasol o grantiau a mentrau codi arian ar gyfer blaengareddau.  Maent yn cynnwys sefydlu’r ardal allanol a sicrhau offer a deunydd TGCh, sy’n cyfrannu’n briodol at ymestyn profiadau dysgu’r plant.

O ystyried deilliannau’r plant a’r diffygion mewn rhai agweddau ar y ddarpariaeth, mae’r lleoliad yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol –**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |